

# Rôl 'dylanwadwyr darllen' amrywiol wrth hybu teithiau darllen plant

Canfyddiadau ymchwil newydd BookTrust ymhlith teuluoedd blynyddoedd cynnar o gefndiroedd incwm isel

## Cyflwyniad

Mae ymchwil yn dangos bod darllen yn y blynyddoedd cynnar yn cynnig ystod eang o fanteision uniongyrchol a gydol oes a all drawsnewid cyfleoedd bywyd plant. Mae rhannu straeon gyda babanod a phlant bach yn creu adegau arbennig o agosatrwydd, o rannu sylw, ac o fwynhad. Yn ei dro mae hyn yn hybu bondio, ymlyniad cadarnhaol a lles ymhlith teuluoedd. Mae manteision datblygiadol pwysig i blant sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â llyfrau a straeon, fel gwell sgiliau iaith, twf cymdeithasol-emosiynol, a gwell creadigrwydd.

Mae ymchwil BookTrust yn dangos bod plant yn fwy tebygol o ddod yn ddarllenwyr annibynnol pan fyddan nhw'n cael profiad o ddarllen gydag amryw bobl neu 'ddylanwadwyr darllen', ac yn cael eu hysbrydoli ganddyn nhw, o'r adegau cynharaf yn eu plentyndod (gweler ein gwaith [ymchwil diweddar](#)). Gall y 'dylanwadwyr darllen' cadarnhaol hyn gynnwys gwahanol aelodau o'r teulu, athrawon, neu bobl eraill ym mywyd

y teulu y mae modd ymddiried ynddyn nhw. Ar adeg pan fo'r bwch anfantais yn ehangu, mae'n hanfodol ein bod yn cefnogi ac yn annog cymaint o bobl â phosibl i ddarllen a rhannu straeon gyda phlant ifanc fel y gallan nhw fwynhau manteision darllen sy'n trawsnewid bywyd.

## Ynglŷn â'r briff hwn

Mae'r papur briffio hwn yn crynhoi ymchwil BookTrust ar y rôl hollbwysig a dylanwadol sydd gan amryw 'ddylanwadwyr darllen' wrth lunio arferion darllen hirdymor plentyn. Drwy rannu'r canfyddiadau hyn, rydym yn ceisio ysbrydoli ac annog ein partneriaid, ymarferwyr a llunwyr polisi i gynorthwyo cymaint o bobl â phosibl i fod yn rhan o deithiau darllen plant.

Dyma'r ail mewn cyfres o bapurau briffio ymchwil y mae BookTrust yn eu cyhoeddi yn 2023 ar arferion darllen plentyndod cynnar mewn teuluoedd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Gallwch ddarllen ein briff cyntaf fan yma: [Darllen yn y Blynyddoedd Cynnar](#).



Mae gan

**69%**

o blant 0-7 oed **fwy nag un unigolyn** sy'n darllen yn rheolaidd gyda nhw



Nid yw

**31%**

o blant 0-7 oed yn cael **profiad o ddarllen yn rheolaidd gydag amryw bobl**



Mae

**95%**

o famau a 67% o dadau **yn darllen yn rheolaidd gyda'u plant 0-7 oed**



Mewn

**37%**

o deuluoedd, mae plant 0-7 oed yn cael **profiad rheolaidd o ddarllen gyda'u neiniau a theidiau**



Mewn

**27%**

o deuluoedd, mae plant 0-7 oed yn cael **profiad rheolaidd o ddarllen gyda'u brodyr a'u chwiorydd**. Mewn 14% o deuluoedd mae plant 0-7 oed yn cael profiad rheolaidd o ddarllen gyda'u modryb/ewythr



Mae

**71%**

o blant ysgol (4-7 oed) yn cael **profiad rheolaidd o ddarllen gyda'u hathrawon**

## Methodoleg ymchwil

Mae'r ffigurau yn y ddogfen hon yn deillio o ail Arolwg Teulu BookTrust. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein hwn o 2,148 o rieni a gofawyr plant 0-7 oed sy'n byw mewn cartrefi incwm isel yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2022. Mae'r papur briffio hwn hefyd yn cynnwys elfennau a gasglwyd o ymchwil ansoddol diweddar BookTrust gyda theuluoedd ac ymarferwyr a'n Harolwg Teulu cyntaf a gynhaliwyd yn 2021.

Noder: rydym yn defnyddio'r term 'teuluoedd incwm isel' i olygu'r rhai sy'n byw mewn tldi cymharol yn ôl diffiniad yr Adran Gwaith a Phensiynau.

## Beth mae'r ymchwil yn ei ddweud wrthym?

Trwy'r gwaith ymchwil newydd hwn rydym wedi dysgu bod 69% o blant ifanc Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cael profiad o ddarllen ar y cyd â phobl amrywiol yn eu bywydau. Mae'n datgelu bod amrywiaeth o unigolion yn gweithredu fel 'dylanwadwyr darllen' cadarnhaol i blant ifanc, gan eu cefnogi ar eu teithiau darllen. Fodd bynnag, mae hefyd yn ei gwneud yn glir nad oes gan bron i draean o blant 'ddylanwadwyr darllen' amrywiol yn eu bywydau.

Mae ein hymchwil yn amlygu'r rôl bwysig y mae 'dylanwadwyr darllen' fel aelodau o'r teulu a gofawyr yn ei chwarae wrth helpu plant i ddatblygu cariad at ddarllen. Nid yn unig y maen nhw'n rhannu llyfrau a straeon, maen nhw hefyd yn dylanwadu ar blant i fwynhau darllen trwy ddod o hyd i ffyrdd o wneud darllen yn hwyl, darganfod llyfrau newydd i'w harchwilio gyda'i gilydd neu ddangos eu mwynhad eu hunain o ddarllen. Mae mwynhad plant 0-7 oed o ddarllen yn cael ei ddylanwadu gan famau (77% o blant), tadau (73%), brodyr a chwiorydd (63%), neiniau a theidiau (61%), a modrybedd/ewythrod (39%). Yn achos 57% o blant ysgol (4-7 oed), mae athrawon hefyd ymhlith y 'dylanwadwyr darllen' allweddol.

Mae llawer o neiniau a theidiau yn chwarae rhan bwysig ym mhrofiadau darllen eu hwyrion. Yn ôl Arolwg Teulu 2021 BookTrust, a oedd yn cynnwys 500 o neiniau a theidiau incwm isel, roedd 91% ohonynt yn rhoi llyfrau yn rhoddion i'w hwyrion. Roedd dros hanner y neiniau a theidiau (53%) yn rhoi llyfrau fel rhan o fywyd bob dydd (nid dim ond ar achlysuron arbennig fel penblwyddi) ac roedd 19% o neiniau a theidiau yn benthyca llyfrau o lyfrgelloedd i'w rhannu â'u hwyrion.

Mae ein hymchwil yn dangos bod rhai grwpiau o 'ddylanwadwyr darllen' posibl yn wynebu heriau penodol wrth gefnogi plant ifanc ar eu teithiau darllen:

- Dywedodd 33% o dadau wrthym nad ydyn nhw'n darllen yn rheolaidd gyda'u plant (o gymharu â 5% o famau).
- Mae llawer o dadau'n dweud wrthym eu bod eisiau cefnogi teithiau darllen eu plant ond nad oes ganddyn nhw'r hyder na'r wybodaeth i wneud hynny. Dywed 31% o dadau nad ydyn nhw'n teimlo'n hyderus yn dewis llyfrau y byddai eu plant yn eu mwynhau (o gymharu ag 17% o famau).
- Mae diffyg hyder gan rai neiniau a theidiau wrth ddarllen llyfrau gyda'u hwyrion. Mae eraill yn wynebu heriau oherwydd pellter daearyddol oddi wrth eu hwyrion.
- Mae gan lawer o athrawon brinder amser i ddod o hyd i lyfrau newydd i ysbrydoli plant yn eu hysgolion.

“Drwy'r pecyn Dechrau Da Babi, fe wnaethon ni ddechrau darllen gydag o yn ifanc, ac fe wnaeth annog un o'i frodyr a chwiorydd hŷn i ddarllen gydag o hefyd.”

Mam, Arolwg Teulu BookTrust, 2022





Rydym yn gweithio i fynd i'r afael â'r anghenion a'r rhwystrau hyn fel rhan o'n **strategaeth** i bob plentyn elwa ar bŵer trawsnewidiol darllen. Rydym yn canolbwyntio'n benodol ar gefnogi teuluoedd â phlant 0-5 oed a'r 'dylanwadwyr darllen' amrywiol ym mywydau plant i ddatblygu ymddygiad o ddal ati i ddarllen ar y cyd:

- Mae Dechrau Da, ein rhaglen blynyddoedd cynnar ar gyfer pob teulu yn Lloegr, wedi'i dylunio i gefnogi profiadau darllen ar y cyd sy'n hawdd, pleserus a rhyngweithiol ar draws teuluoedd sydd â strwythurau, amgylchiadau a dewisiadau amrywiol. Mae adnoddau Dechrau Da wedi'u datblygu gyda theuluoedd ac ymarferwyr i'w defnyddio gan wahanol 'ddylanwadwyr darllen' sydd â lefelau gwahanol o sgiliau a hyder wrth rannu straeon â phlant ifanc.
- Mae BookTrust ar hyn o bryd yn cynnal cyfres o gynlluniau peilot arloesol gyda theuluoedd sydd â phlant yn eu blynyddoedd cynnar ac ymarferwyr yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i gynyddu arferion cynnar o ddarllen ar y cyd. Mae'r cynlluniau peilot yn canolbwyntio'n benodol ar sicrhau bod plant a gwahanol 'ddylanwadwyr darllen' yn profi'r manteision uniongyrchol sydd i adegau darllen ar y cyd, gan gynnwys bondio teuluol, lles a chreu atgofion.
- Rydym yn datblygu hyfforddiant ac offer newydd ar gyfer ymarferwyr y blynyddoedd cynnar i gynorthwyo eu gwaith gyda theuluoedd.
- Rydym yn gwella ansawdd a hygyrchedd ein cymorth i athrawon. Mae hyn yn cynnwys ein platfform **Bookfinder** sy'n helpu athrawon i ddod o hyd i lyfrau o ansawdd uchel i'w defnyddio yn eu hysgolion.

“ Amser yw un o'r rhwystrau mwyaf o ran darllen. Ond rwy'n meddwl bod y bondio rhyngoch chi yn cynyddu os ydych chi'n ei wneud. Mae ychydig o dudalennau yma ac acw yn gwneud byd o wahaniaeth.”

**Tad, Rhaglen Dechrau Da Plant Bach a Phlant Cyn Oed Ysgol, 2022/23**

“ Roeddwn i'n llawn cyffro wrth dderbyn y pecyn Dechrau Da i Blant Bach ac yn methu aros i'w agor i weld beth oedd y tu mewn. Roedd fy wyres yn llawn cyffro i weld y lluniau'n symud wrth i mi ddarllen y straeon. Roedd popeth am y pecyn hwn yn gyffrous iawn iddi.”

**Nain/Taid, Rhaglen Dechrau Da Plant Bach a Phlant Cyn Oed Ysgol 2022/23**



Wth i'r bwlch cyrhaeddiad ehangu, ni fu erioed cymaint o angen a chymaint o frys i annog teuluoedd i ddarllen a rhannu straeon â phlant, a hynny o'r amser cynharaf posibl. Rydym yn falch o'r gwahaniaeth y mae rhaglenni Dechrau Da ac Amser Stori BookTrust yn ei wneud i deuluoedd sydd â phlant yn eu blynyddoedd cynnar, ym mhob cymuned yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Rydym yn canolbwyntio'n benodol ar gefnogi plant o aelwydydd incwm is ac o gefndiroedd teuluol bregus. Rydym yn gweithio gyda rhwydwaith anhygoel o dros 6,000 o bartneriaid cymunedol y blynyddoedd cynnar i gael y plant a'r teuluoedd hyn i ddarllen gyda'i gilydd. Fodd bynnag, mae maint yr her a'r angen yn fawr. Mae mwy i'w wneud i gyrraedd mwy o deuluoedd, gan ddarparu'r cymorth sydd ei angen i greu a chynnal yr arferion hollbwysig cynnar hyn o ddarllen ar y cyd.

Trwy dynnu sylw at bwysigrwydd 'dylanwadwyr darllen' amrywiol a'u heffaith ar brofiadau plant a'u canlyniadau bywyd yn ddiweddarach, rydym yn gobeithio cynyddu nifer ac ystod y bobl sy'n rhannu straeon a llyfrau â phlant ifanc.”

**Ruthann Hughes, Cyfarwyddwr Ymchwil ac Effaith, BookTrust**

## Ynglŷn â BookTrust

Fel yr elusen ddarllen fwyaf i blant yn y Deyrnas Unedig, rydym am i bob plentyn ddewis darllen yn rheolaidd. Rydym yn cyrraedd miliynau o blant a theuluoedd bob blwyddyn, gan eu hysbrydoli â llyfrau ac adnoddau i'w rhoi ar ben ffordd ar eu taith ddarllen. Rydym yn darparu ystod eang o lyfrau, adnoddau a chymorth sydd wedi'u curadu a'u dylunio'n ofalus i helpu teuluoedd i ddechrau rhannu straeon a pharhau i ddarllen drwy gydol plentyndod. Rydym yn cynnig mwy o gymorth wedi'i dargedu i deuluoedd o gefndiroedd incwm isel a bregus oherwydd ein bod yn gwybod mai'r plant hyn fydd yn elwa fwyaf o fanteision darllen.

Mae ein cymorth, sydd wedi'i ddylunio i newid ymddygiad darllen, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn gan gynnwys ymchwil ymhlith rhieni, neiniau a theidiau, gofalwyr eraill ac ymarferwyr. Rydym yn deall ac yn dylunio ar gyfer y strwythurau, yr amgylchiadau a'r dewisiadau amrywiol sydd ymhlith teuluoedd blynyddoedd cynnar yn y DU.

Diolch i rwydwaith anhygoel o bartneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgolion, llyfrgelloedd, a mwy ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gallwn gyrraedd teuluoedd lle maen nhw, yn eu cymunedau lleol.



### Cysylltwch â ni

[queries@booktrust.org.uk](mailto:queries@booktrust.org.uk)

[booktrust.org.uk](http://booktrust.org.uk)

[f](https://www.facebook.com/Booktrust) [@Booktrust](https://www.instagram.com/Booktrust) [t](https://twitter.com/Booktrust)

©2023 BookTrust. Rhif elusen: 313343



Supported using public funding by  
**ARTS COUNCIL  
ENGLAND**